



Cylchlythyr Llywodraeth Cymru rhif:	WG 007/2020	Dyddiad cyhoeddi:	24 Mehefin 2020
--	--------------------	--------------------------	-----------------

Statws:	Ar gyfer gweithredu
----------------	---------------------

Teitl:	COVID-19 a'r Safonau Gofynnol Genedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed: Mehefin – 30 Medi 2020
---------------	---

A gyhoeddwyd gan:	
Nicola Edwards Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar	
Gyfeirio at:	Anfonwch at:
Arolygiaeth Gofal Cymru Gofal Cymdeithasol Cymru SkillsActive Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol Cydgysylltwyr Gofal Plant Awdurdodau Lleol Cydgysylltwyr Chwarae Awdurdodau Lleol Timau Dechrau'n Deg Awdurdodau Lleol AWARE Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Awdurdodau Lleol Consortiwm Gofal Plant CWLWM Chwarae Cymru	Yr holl wasanaethau gwarchod plant a gofal dydd cofrestredig a phartion eraill â buddiant

Crynodeb:

Cyhoeddir y Cylchlythyr hwn gyda chytundeb y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Gofynnwn i chi sicrhau bod y cynnwys yn cael ei ddosbarthu i'r holl bartïon sydd â buddiant cyn gynted â phosib.

Diben y Cylchlythyr hwn yw darparu canllawiau i'r sector gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru wrth i ddarparwyr baratoi i ailagor neu gynyddu eu gweithrediadau yn sgil lleihau rhai o'r cyfyngiadau oherwydd COVID-19. Mae'n egluro o dan ba amgylchiadau, ac yn ddarostyngedig i ba drefniadau, y bydd Llywodraeth Cymru yn caniatáu llacio rhai o'r gofynion yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir [<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/safonau-gofynnol-cenedlaethol-ar-gyfer-gofal-plant-wedi-i-reoleiddio.pdf>]. Mae'r Cylchlythyr hwn yn disodli Cylchlythyr 005/2020.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

E-bost: TrafodGofalPlant@llyw.cymru

Gwefan: www.llyw.cymru

COVID-19 a'r Safonau Gofynnol Genedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed: Mehefin – Medi 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod pob rhan o'r sector gofal plant a gwaith chwarae wedi derbyn yr her i barhau i ddarparu gofal plant hanfodol i deuluoedd gweithwyr hanfodol ac i blant bregus yn erbyn cefndir o amgylchiadau heriol ac ansicr. Mae Gweinidogion Cymru yn hynod ddiolchgar am eich holl ymdrechion i sicrhau bod lefel sylfaenol o ddarpariaeth ar gael i'r rheini sydd ei hangen.

Ar 8 Ebrill, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cylchlythyr (LIC 005 20) yn amlinellu'r trefniadau i gefnogi lleoliadau gofal plant a oedd wedi aros ar agor ar gyfer gofal plant i weithwyr hanfodol. Roedd y llythyr hwnnw'n cynnig gwybodaeth a chanllawiau am y trefniadau **dros dro** mewn perthynas â llacio rhai o'r gofynion yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir:

[<https://llyw.cymru/safonau-gofynnol-cenedlaethol-ar-gyfer-gofal-plant-wedii-reoleiddio-coronafeirws-covid-19>]

Bwriedir i'r trefniadau hynny helpu i gynnig rhywfaint o hyblygrwydd wrth ddarparu gwasasanaethau allweddol o dan amgylchiadau heriol.

Wrth inni ddod allan yn raddol o'r cyfyngiadau symud, ac wrth i fwy o leoliadau ddechrau ailagor, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ehangu cyfnod llacio **dros dro** rai o'r gofynion yn ei Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir tan 30 Medi 2020. Y gobaith yw y bydd yr estyniad hwnnw'n helpu drwy barhau i roi hyblygrwydd yn ystod cyfnod sydd i bob pwrpas yn gyfnod pontio i ddarparwyr wrth iddynt geisio cynyddu eu gweithrediadau i ofalu am fwy o blant, neu ailddechrau eu gwasanaethau.

Mae'r trefniadau a'r canllawiau a amlinellir yn y llythyr hwn yn disodli'r rheini a amlinellwyd yng Nghylchlythyr LI 005 20.

Bydd unrhyw drefniadau llacio a gaiff eu cytuno neu eu hadolygu yn ystod y cyfnod sy'n dilyn cyhoeddi'r cylchlythyr hwn a hyd at 30 Medi yn gyfyngedig i ganllawiau fel y nodir yn y llythyr hwn, a bydd rhaid i bob achos gael ei gymeradwyo gan awdurdod lleol. Ni ddylai awdurdodau lleol gymeradwyo achosion oni bai fod y mesurau a gynigir gan y darparwr gofal plant yn rhesymol ac yn gymesur â'r amgylchiadau lleol a'r angen i sicrhau darpariaeth gofal plant. Y darparwr gofal plant cofrestredig fydd yn gyfrifol o hyd am sicrhau diogelwch a lles y plant yn eu gofal.

Hyd at 30 Medi 2020, mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno y gellir ystyried llacio dros dro yr agweddau a ganlyn ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir.

Cymarebau staffio: Gellid llacio cymarebau oedolion: plant fel a ganlyn:

1. Safon 15.12 – Gofal dydd:

- llacio cymhareb y Safonau Gofynnol Cenedlaethol o un oedolyn i wyth plentyn 3-7 oed i un oedolyn i ddeg plentyn
- llacio cymhareb y Safonau Gofynnol Cenedlaethol o un oedolyn i ddeg plentyn 8-12 oed i ganiatáu i un oedolyn ofalu am hyd at 12 plentyn.

2. Safon 15.7 – Gwarchodwyr plant:

- llacio cymhareb y Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n pennu na chaiff gwarchodwr plant ofalu am fwy na chwe phlentyn dan 8 oed er mwyn iddo gael gofalu am fwy na chwe phlentyn yn y grŵp oedran 5-7, ar yr amod nad oes mwy na 10 o blant i gyd o dan 12 oed. Noder nad oes unrhyw newid i'r gymhareb ar gyfer plant o dan 5 oed.

Rhaid cael cymeradwyaeth yr awdurdod lleol cyn gweithredu unrhyw lacio ar y gymhareb staffio, er mwyn sicrhau bod y newidiadau yn rhesymol ac yn gymesur, a bod modd darparu gofal rheolaidd yng ngoleuni'r amgylchiadau lleol, heb gyfaddawdu ar ddiogelwch a lles y plant y gofelir amdanynt.

Dylai'r awdurdod lleol a'r sawl sy'n darparu gofal plant fodloni eu hunain y gallant gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar y mesurau diogelu mewn lleoliadau gofal plant, gan gynnwys barhau i ddilyn y cyngor mewn perthynas â gofalu am blant mewn grwpiau bach a chyson [<https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-leoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel>]. Yn ychwanegol, ni ddylai

unrhyw lleoliad gofal plant ofalu am fwy o blant na'r nifer cytunedig o blant cofrestredig sydd ganddynt.

Safon 15.13 Staff ychwanegol mewn lleoliadau gofal dydd: dylech chi a'ch awdurdod lleol gytuno ar y trefniadau hyn fesul achos, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Ceir llacio'r gofyniad na ddylid cynnwys y rheolwr wrth gyfrifo cymarebau oedolion: plant mewn lleoliad gofal dydd llawn sydd wedi'i gofrestru ar gyfer 20 neu fwy o blant, ar yr amod bod yr awdurdod lleol yn cymeradwyo hynny ymlaen llaw.

Safon 15.13 Dau aelod o staff ar ddyletswydd mewn lleoliadau gofal dydd: ar yr amod bod pob gofyniad arall o ran cymarebau staffio yn cael eu bodloni, ceir llacio'r gofyniad bod yna ddau aelod o staff ar ddyletswydd bob amser, ar ôl i'r awdurdod ystyried amgylchiadau penodol y lleoliad.

Cymwysterau staff: dylid edrych ar y gofynion cymwysterau mewn ffordd hyblyg a chymesur mewn perthynas ag aelodau o staff a fydd yn gweithio neu wirfoddoli mewn lleoliad gofal plant. Er enghraifft, gallai hyn olygu llacio'r safonau o ran y gyfran o staff gofal plant y mae'n rhaid iddynt fod â chymhwyster gofal plant cydnabyddedig, neu gellid derbyn hyfforddiant ar-lein mewn perthynas â chymwysterau cymorth cyntaf. Ym mhob achos, byddai'n rhaid i warchodwyr plant a'r sawl sy'n rheoli lleoliad neu ei ddirprwy gael cymwysterau yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Hefyd, byddai rhaid i'r darparwr gofal plant cofrestredig a'r sawl sy'n rheoli fod yn hyderus ynghylch ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir yn eu lleoliad. Yn ogystal â hyn, byddai rhaid iddynt ystyried a yw personoliaeth a rhinweddau pob aelod o staff a gyflogir yn addas, pe byddai'r gofynion o ran cymwysterau'n cael eu llacio.

DBS: *nid* yw Llywodraeth Cymru yn llacio unrhyw un o'r rheolau sy'n gysylltiedig â'r gofyniad i ddarparwyr gofal plant gael gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Fodd bynnag, ystyrir bod llacio'r arferion cyfredol/cyffredin sy'n gysylltiedig â gwiriadau cofnodion troseddol manylach, fel y nodir isod, yn briodol o gofio'r angen i sicrhau darpariaeth gofal ddigonol ar gyfer rhieni a gofalwyr sydd ei hangen.

Mae'n ofynnol, o dan Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, i bob aelod o staff a gwirfoddolwr sy'n gweithio mewn lleoliadau gwarchod plant a gofal dydd fod â thystysgrif cofnod troseddol fanylach, gan gynnwys gwiriad yn erbyn y rhestr gwahardd plant. Yn ymarferol, mae unigolion naill ai wedi cael gwiriad DBS newydd wrth newid swydd neu wedi eu cofrestru â gwasanaeth diweddar y DBS, a gall cyflogwyr wirio hwnnw'n gyflym wrth i staff newid swyddi. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i gyflogwyr ynghylch addasrwydd y staff y maent yn eu cyflogi.

Efallai y bydd rhaid i unigolion cymwys a phrofiadol sy'n gweithio gyda phlant symud yn aml ac yn gyflym rhwng lleoliadau er mwyn sicrhau bod gofal ar gael. I fynd i'r afael â hynny, rydym wedi dod i'r casgliad y byddai'n briodol i staff gofal plant a gwaith chwarae, a nanis sydd wedi'u cymeradwyo dan Gynllun Cymeradwyo Gwirfoddol Gofal Plant yn y Cartref Llywodraeth Cymru, fedru symud rhwng lleoliadau os ydynt wedi cael gwiriad DBS dilys, hy gwiriad cofnod troseddol manylach, gan gynnwys gwiriad yn erbyn y rhestr gwahardd plant, o fewn y 3

blynedd ddiwethaf. Byddai'n rhaid i hyn gael ei brofi gan staff sydd am weithio mewn lleoliad gofal plant drwy ddangos eu tystysgrif DBS. Dylid parhau i gynnal gwiriadau diweddarau ar gyfer y rheini sydd ar y system ddiweddarau.

Mae'r camau hyn wedi cael eu trafod ag Arolygiaeth Gofal Cymru, CWLWM a chynrychiolwyr awdurdodau lleol. Hefyd, rydym wedi ceisio sicrhau cydbwysedd derbyniol rhwng rhoi'r hyblygrwydd i ddarparwyr addasu a phheidio â pheryglu diogelwch a llesiant y plant sy'n cael gofal.

Dylai pob darparwr roi gwybod i'w awdurdod lleol (drwy eu Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd neu eu cyswllt arferol yn y tîm gofal iechyd) am ei fwriad i weithredu unrhyw un neu ragor o'r mesurau a ddisgrifir yn y llythyr hwn, cyn llacio unrhyw ofyniad.

Bydd rhaid i awdurdodau lleol gael eu bodloni bod y cynlluniau'n angenrheidiol ac yn gymesur â'r amgylchiadau, a'u bod yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar fesurau diogelu,

Rhaid i Arolygiaeth Gofal Cymru, fel y rheoleiddiwr gwasanaethau gofal plant, gael gwybod am unrhyw newidiadau a wneir, fel a ganlyn:

1. Bydd angen i ddarparwyr ddefnyddio eu cyfrifon ar-lein i hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru am unrhyw newidiadau sy'n cael eu cytuno.
2. Bydd angen i Awdurdodau Lleol hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru eu bod wedi cytuno i'r newidiadau.

Dylai'r darparwr a'r awdurdod lleol adolygu'r trefniadau bob mis.

Ceir canllawiau pellach am y trefniadau hyn yma: <https://gov.wales/guidance-national-minimum-standards-regulated-childcare-coronavirus-covid-19>.

Dylai darparwyr gofal plant barhau i fod yn ystyriol o gyngor lechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch golchi dwylo'n aml a chadw pellter cymdeithasol. A rhaid iddynt gymrud **pob cam rhesymol** i gynnal pellter corfforol yn eu lleoliadau yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/cymryd-pob-cam-rhesymol-i-gynnal-pellter-corfforol-yn-y-gweithle>

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol a darparwyr gofal plant edrych hefyd ar y canllawiau cyffredinol sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gofal plant a COVID-19, sy'n cynnwys gwybodaeth am drefniadau Profi, Orlhain, Diogelu.

<https://llyw.cymru/coronafeirws>

<https://llyw.cymru/pecyn-cymorth-ar-gyfer-cyflogwyr-gweithwyr-hanfodol>

Cynghorir darparwyr sy'n gweithredu o dan amodau llacach y Safonau Gofynnol Cenedlaethol i **wirio dilysrwydd eu hyswiriant** gyda'u darparwr yswiriant gan y gallai fod yna oblygiadau i'r newidiadau.

Am ba mor hir y gellir ystyried gweithredu'r trefniadau llacio hyn?

Gellir ystyried gweithredu'r trefniadau llacio hyn, a chytuno arnynt os yw'n briodol, hyd at 30 Medi 2020, yn amodol ar adolygiad misol gan yr awdurdod lleol.

O 1 Hydref 2020 ymlaen, disgwylir i ddarparwyr gofal plant roi sylw dyledus i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed, yn y ffordd arferol, oni bai bod cylchlythyr arall yn cael ei gyhoeddi cyn hynny. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r sefyllfa ar lawr gwlad, gan ystyried y cyngor gwyddonol/meddygol ac adborth rhanddeiliaid allweddol a fydd yn sail i helpu i lunio polisiau ar gyfer y dyfodol ac os teimlir bod angen gwneud newidiadau i'r cylchlythyr hwn cyn 30 Medi, byddwn yn rhoi gwybod i randdeiliad fel sy'n briodol.